Welsh Parliament
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Rhagfyr 2021

1. Y cefndir

1. Cyflwynwyd y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)[1] ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 12 Mai 2021. Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol sy'n noddi'r Bil.

2. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 14 Medi 2021 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 15 Medi 2021.[2] Cafodd y Bil ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Tachwedd. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, nid oedd dyddiad ar gyfer dechrau'r cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i gadarnhau.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Ar 26 Mai 2021, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[3] (y Memorandwm) gerbron Senedd Cymru mewn perthynas â'r Bil.

4. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm ar 7 Rhagfyr 2021.[4]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 2 Llywodraeth Cymru

5. Ar 26 Tachwedd 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[5] (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Rhif 2 erbyn 9 Rhagfyr 2021.[6]

---

[1] Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), fel y'i cyflwynwyd [HL Bill 1]

[2] Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), fel y daeth o Dŷ'r Arglwyddi (Bil 164 2021-22)

[3] Llywodraeth Cymru Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), Mai 2021

[4] Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), Rhagfyr 2021

[5] Llywodraeth Cymru Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), Tachwedd 2021

[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), Tachwedd 2021

Gwelliannau a wnaed i'r Bil fel y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Rhif 2

7. Mae Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â 27 o welliannau a wnaed i nifer o gymalau yn y Bil. Pasiwyd 26 o'r gwelliannau hyn gan Dŷ'r Arglwyddi ar 20 Gorffennaf 2021.[7] [8] Amlinellir y gwelliannau ym mharagraffau 13 i 30 ac Atodiad A o'r Memorandwm Rhif 2.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

8. Mae paragraffau 31 i 37 o'r Memorandwm Rhif 2 yn egluro pam mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwelliannau a wnaed i'r Bil.

9. Dywedodd y Gweinidog:

> *"Nodaf y gwelliannau a osodwyd yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi a disgwyliaf i welliannau pellach gael eu cyflwyno i'w trafod yn ystod cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Roeddwn wedi gobeithio gosod un Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer yr holl welliannau a wnaed i'r Bil ond o ystyried yr oedi sydd wedi digwydd i'r amserlen seneddol yn ystod yr wythnosau diwethaf, a'r amser sydd wedi mynd heibio ers i'r gwelliannau gael eu cyflwyno a'u pasio yn Nhŷ'r Arglwyddi, rwyf wedi penderfynu gosod Memorandwm atodol mewn perthynas â'r gwelliannau hynny nawr a chyflwyno Memorandwm atodol ar wahân unwaith y bydd unrhyw welliannau pellach wedi'u cyflwyno."*[9]

10. Ychwanegodd y Gweinidog:

> *"Rwy'n fodlon â chynnwys gwelliannau i'r Bil yr oedd Llywodraeth Cymru wedigofyn amdanynt i sicrhau bod a) Gweinidogion Cymru yn cael y pwerau gweithredol cyfatebol priodol i drefniadau'r Ysgrifennydd Gwladol a b) bod ein trefniadau tribiwnlys ar wahân yn cael eu hadlewyrchu'n briodol, fel bod ceisiadau'n cael eu gwneud i'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau yng Nghymru."*[10]

[7] Cyfnod Adrodd, Tŷ'r Arglwyddi, 20 Gorffennaf 2021

[8] Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), fel y'i diwygiwyd ar yr Adroddiad [HL Bill 47]

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 31

[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 32

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3 Llywodraeth Cymru

11. Ar 3 Rhagfyr 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[11] (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer y Bil.

12. O ystyried bod Memorandwm Rhif 3 wedi cyrraedd yn hwyr yn y cyd-destun y trefnwyd i'r ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil gael ei chynnal ar 14 Rhagfyr 2021, nid oedd digon o amser i ni ei ystyried nac adrodd ar ei gynnwys.

2. Trafodaeth y Pwyllgor

13. Trafodwyd y Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 6 Rhagfyr 2021[12] a chytunwyd ar ein hadroddiad ar yr un diwrnod.

Ein barn ni

14. Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer yr holl welliannau a wneir i'r Bil fel y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 2.

15. Rydym yn cydnabod bod Memorandwm Rhif 2 yn well ac yn cynnig rhagor o wybodaeth na'r Memorandwm.

16. Er nad ydym wedi cael yr amser i ystyried y materion hyn mor llawn ag y byddem wedi dymuno nodwn, fodd bynnag, nad yw Memorandwm Rhif 2 yn cynnwys gwybodaeth briodol am y pwerau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'u cadw'n ôl mewn meysydd datganoledig i wneud rheoliadau o dan gymal 2(2) o'r Bil (i wneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys hysbysiadau o dan is-adran (1)(c) sy'n ymwneud â phrydlesi eithriedig) a chymal 21 (sy'n ymwneud â gwelliannau canlyniadol a all fod yn angenrheidiol). Nid yw ychwaith yn cynnwys gwybodaeth briodol am bwerau cychwyn sy'n cael eu cadw gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y materion hyn wedi'u hamlygu yn llythyr y Gweinidog, dyddiedig 16 Tachwedd 2021.[13] Mae'r rhain yn bwyntiau pwysig y dylid bod wedi rhoi sylw llawn iddynt yn y Memorandwm Rhif 2 i lywio'r ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol.

---

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), Rhagfyr 2021

[12] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 6 Rhagfyr 2021

[13] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Tachwedd 2021, Atodiad – ymatebion i gwestiwn 11 a chwestiwn 12

17. Rydym yn ailadrodd y pryderon a fynegwyd gennym yn ein hadroddiad ar y Memorandwm gwreiddiol bod oedi cyn gosod Memorandwm Rhif 2 wedi "rhwystro ein gallu i graffu'n effeithiol ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i ofyn am gydsyniad i ddeddfu drwy gyfrwng Bil Llywodraeth y DU mewn maes datganoledig."[14]

18. Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil wedi bod yn ddryslyd, yn ogystal â bod rhywfaint o anghysondeb o ran y wybodaeth a gynhwysir yn y Memoranda hynny wrth eu cymharu â llythyr y Gweinidog, dyddiedig 16 Tachwedd.

19. Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at un o'r nifer o resymau pam mae craffu ar Fil Cymru a gyflwynir i'r Senedd yn well na chraffu drwy gyfrwng Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil y DU a gyflwynir i Senedd y DU. Byddai Bil Cymru yn caniatáu rhagor o amser a chyfle i Aelodau o'r Senedd graffu'n fanwl ar ddeddfwriaeth o fewn amserlen hysbys a gaiff ei rheoli yn unol â Rheolau Sefydlog y Senedd.

20. Yng ngoleuni ein sylwadau ym mharagraff 16 uchod, rydym hefyd yn ailadrodd y sylwadau a wnaethom ynghylch pwerau dirprwyedig yn ein hadroddiad ar y Memorandwm,[15] a arweiniodd at argymhelliad 2 yn yr adroddiad hwnnw, ac yr ydym yn ei ailadrodd yma.

Argymhelliad 1. Cyn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog sicrhau y caiff ei ddiwygio i ddarparu mai Gweinidogion Cymru sy'n arfer yr holl bwerau dirprwyedig i wneud is-ddeddfwriaeth yng Nghymru mewn meysydd datganoledig.

[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth. Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir). Rhagfyr 2021, casgliad 2

[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth. Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir). Rhagfyr 2021,, paragraffau 36 i 48